

Janet Finch-Saunders AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

12 Chwefror 2021

Annwyl Janet

Deiseb P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror ynghylch y ddeiseb uchod. Yn y llythyr hwnnw, roeddech yn ceisio gwybodaeth ynghylch a yw'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wedi gwneud unrhyw waith craffu ar weithredu canllawiau NICE yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r cwestiwn yn eich llythyr, gallaf gadarnhau bod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ystyried canllawiau NICE lle bo hynny'n berthnasol yn ystod ein gwaith craffu, er enghraifft mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor ar wasanaethau endosgopi yn 2019, neu'r gwaith ar strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia yn 2017.

Yn ein hadroddiad etifeddiaeth, rydym yn disgwyl cynnwys amlinelliad o'r materion y bydd ein Pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd o bosibl yn dymuno eu hystyried. Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at awgrym y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â gweithredu canllawiau NICE yng Nghymru.

Diolch i chi am ymgysylltu'n gyson â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y materion trawsbynciol hyn.

Yn gywir,



Dr Dai Lloyd AS



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddIechyd@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddHealth@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

